

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

<http://senedd.tv/cy/5067>

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Hydref 2018

Amser: 09.30 – 10.17

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	David J Rowlands AC (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AC Janet Finch-Saunders AC Mike Hedges AC Neil McEvoy AC
Tystion:	
Staff y Pwyllgor:	Graeme Francis (Clerc) Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) Kathryn Thomas (Dirprwy Glerc)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P05-840 Cyllid Teg i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (CBSCNPT) a phob Awdurdod Lleol arall

Datganodd Neil McEvoy y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Mae'n Gyngorydd ar Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno ar y camau a ganlyn:

- Rhannu manylion y ddeiseb â Chadeiryddion Pwyllgorau eraill, lle y bo'n briodol, cyn eu sesiynau craffu ar y gyllideb;
- Ysgrifennu at bob awdurdod lleol a CLILC i ofyn am eu barn am broses cyllideb Llywodraeth Cymru a'r heriau presennol i awdurdodau lleol;
- Ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet i wneud y canlynol;
  - gofyn iddo roi rhagor o fanylion am ddyraniadau cyllideb llywodraeth leol drafft ar ôl i'r cynlluniau gwariant gael eu cyhoeddi ar 23 Hydref; a
  - cheisio eglurhad ar sut y bydd y £30 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a nodir yn y gyllideb drafft yn cael ei ddyrannu a'i ddarparu.

## **2.2 P-05-841 Cynnwys cynnig amgen 'Pont Benidgeidfran' ar gyfer trydedd bont dros y Fenai yn y broses asesu ffurfiol**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno i ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am ei farn am sylwadau manwl y deisebydd ac a yw'n barod i gynnwys cynnig y deisebydd yn ffurfiol ochr yn ochr â'r opsiynau gwreiddiol yn ystod dadansoddiad arall o strwythur y bont.

## **2.3 P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno i ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu sylwadau'r deisebwyr a gofyn iddo am ymateb manwl.

## **2.4 P-05-843 Mwy o hawliau trydydd parti mewn apeliadau cynllunio**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno ar y camau a ganlyn:

- Ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i ofyn iddi ymateb i bryderon manwl y deisebwyr. Nododd y Pwyllgor y

bydd, efallai, am gynnal sesiwn dystiolaeth ar hyn a materion cynllunio eraill yn y dyfodol pan fydd wedi trafod yr ymateb a geir; ac

- Ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn:
  - ceisio ei farn am y ddeiseb; a
  - gofyn iddo rannu pryderon sydd ganddo ynghylch y modd y mae awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried barn trydydd partion yn y broses gynllunio.

## **2.5 P-05-844 Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot ar unwaith**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i ofyn am ei barn am y manteision o gyflwyno dull i sicrhau y dylai ceisiadau i newid cynnwys CDLI, rhwng adolygiadau statudol, gael eu cofnodi a'u hystyried yn briodol. Nododd y Pwyllgor y bydd, efallai, am gynnal sesiwn dystiolaeth ar hyn a materion cynllunio eraill yn y dyfodol pan fydd wedi trafod yr ymateb a geir.

## **2.6 P-05-845 Rhowch Derfyn ar Wrthdaro Buddiant yng Nghyfansoddiad Awdurdodau Lleol**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytuno i ysgrifennu at y canlynol:

- Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i ofyn am ei farn am ymateb manwl y deisebydd ac, yn benodol, pa mor effeithiol y mae'r Cod presennol yn cael ei fonitro ac a fyddai'n ystyried adolygiad o'r Cod mewn perthynas â threfniadau ar gyfer swyddogion cynllunio lleol; a'r
- Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol i ofyn am ei farn am y materion a godwyd yn y ddeiseb.

## **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

### **3.1 P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan nifer o randdeiliaid a chytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol i wneud y canlynol:

- ceisio diweddariad manwl ar gynnydd y trefniadau pontio hyd yn hyn, gan gynnwys canlyniad yr adolygiad o'r holl anghenion cymorth y disgwyliwyd ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi; a
- gofyn a fydd, fel ffordd ganol rhwng clustnodi arian a darparu cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw, yn ystyried ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu adroddiad sy'n manylu ar wariant gwirioneddol ar becynnau gofal ar gyfer derbynwyr blaenorol Grant Byw'n Annibynnol Cymru, gan gynnwys nifer y derbynwyr, y swm cyfartalog a gafodd pob un a'r cyfanswm a ddyfarnwyd.

### **3.2 P-05-825 Diogelu ysgyfaint plant rhag llygredd niweidiol tra maent yn yr ysgol**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r deisebydd a chytuno i ysgrifennu yn ôl at Weinidog yr Amgylchedd i wneud y canlynol:

- gofyn am ei barn am y sylwadau manwl a wnaed gan y deisebydd, yn enwedig ar y risgiau a amlinellwyd mewn perthynas â'r darpariaethau monitro presennol; a
- gofyn a fyddai'r awgrymiadau a wnaed yn helpu i lywio Cynllun Aer Glân i Gymru.

### **3.3 P-05-824 Ffordd Osgoi Derwen Brimmon y Drenwydd**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Cyngor Powys a'r deisebwyr a chytuno i ysgrifennu yn ôl at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar ôl iddo ymateb i Gyngor Sir Powys.

## **4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 7.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 5**

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Trafodaeth ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith a chytuno ar amserlen o sesiynau tystiolaeth yn ystod mis Tachwedd, ac i ailedrych ar y Flaenraglen Waith yn ddiweddarach yn nhymor yr hydref.